**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-LG-0154-24

Huw Irranca-Davies, AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Copi i: Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

29 Chwefror 2024

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024**

Rwyf wedi cael cais gan yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid, yn gofyn am gydsyniad ffurfiol ar gyfer Rheoliadau Pysgodfeydd Môr (Y Comisiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd) (Diwygio) (Rhif 2) 2024 ("Rheoliadau 2024") sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig, ac a fydd yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r Confensiwn Rhyngwladol ar Warchod Pysgod Tiwna Iwerydd ("y Confensiwn"), y mae'r Deyrnas Unedig yn barti contractio iddo.

Mae gan y DU rwymedigaeth o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr i gydweithredu ar reoli stociau pysgod a rennir drwy sefydliadau rhanbarthol neu is-ranbarthol priodol. Caiff rhywogaethau tiwna a thebyg i diwna eu rheoli'n fyd-eang drwy Sefydliadau Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol; mae'r Confensiwn yn un enghraifft o'r fath.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd y Deyrnas Unedig yn ddarostyngedig yn flaenorol i ofynion y Confensiwn fel Aelod-wladwriaeth yr Undeb Ewropeaidd. Ar ol gadael yr UE, mae'r DU wedi dod yn barti contractio i'r Confensiwn fel Gwladwriaeth arfordirol annibynnol. Mae'r offeryn hwn yn diweddaru ac yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i gyfrif am ofynion pellach o dan y Confensiwn o ran pysgota hamdden a chwaraeon. O dan reolau ICCAT, ni ddylai partïon contractio ganiatáu targedu tiwna asgell las yn eu dyfroedd at ddibenion chwaraeon neu hamdden heb awdurdodiad priodol. Bydd Rheoliadau 2024 yn mewnosod i Reoliad (UE) 2016/1627 a ddargedwir ystod o ddarpariaethau a fydd yn gwahardd pysgota hamdden a chwaraeon heb drwydded gan weinyddiaeth pysgodfeydd, yn achos Cymru a Pharth Cymru, byddai cyhoeddi trwyddedau yn fater i Weinidogion Cymru.

Fel parti contractio, mae gan y DU rwymedigaeth i weithredu mesurau (a elwir yn 'argymhellion') a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn. Er bod cynnal cytundebau rhyngwladol yn swyddogaeth a gedwir yn ôl, mae'r rhwymedigaethau a'u gweithrediad wedi'u datganoli i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig (e.e. pysgodfeydd) ac yn ymestyn i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru a Pharth Cymru.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu argymhellion a fabwysiadwyd o dan y Confensiwn nad ydynt eto wedi'u hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau rhyngwladol.

Gan fod y Rheoliadau hyn yn gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol ledled y DU mewn perthynas â'r Confensiwn, mae'n briodol eu bod yn cael eu gwneud ar sail y DU. Felly, rwy'n bwriadu rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud Rheoliadau 2024, felly mae'r darpariaethau hynny yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Y dyddiad gosod disgwyliedig yw 14 Mawrth ac mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol sy'n golygu y gellir ei wneud yn dilyn penderfyniad.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a byddaf yn ysgrifennu mewn termau tebyg i Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**